

Cymorth ariannol a gwybodaeth:

Gwella, Trwsio ac Addasu Tai

Diweddarwyd: Chwefror 2013

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu ffynonellau cymorth posibl sydd ar gael i etholwyr y mae angen iddynt wella, trwsio neu addasu eu cartrefi.

Cymorth Awdurdodau Lleol

Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl (DFG)

Mae'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn grant statudol sy'n cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol, a'r bwriad yw iddo alluogi pobl anabl i gael mynediad i'w cartref a gallu symud o gwmpas yn ddidrafferth, ac i ddarparu cyfleusterau hwylus o fewn y cartref.

Mae'r grantiau ar gael i berchen-feddianwyr a thenantiaid ym mhob math o ddeiliadaethau, ond caiff tenantiaid awdurdodau lleol a chymdeithasau tai eu cynghori i gysylltu â'u landlord yn y lle cyntaf oherwydd gall ffynonellau cyllid amgen fod ar gael.

Caiff landlordiaid hefyd wneud cais am grant ar ran tenant anabl, cydhyd â bod y tenant yn bodloni'r amodau a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Gellir defnyddio'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl i dalu am unrhyw un o'r newidiadau a ganlyn:

- gwneud drysau'n lletach a gosod rampiau;
- darparu neu wella mynediad i ystafelloedd a chyfleusterau – er enghraifft, drwy gyfrwng lifft grisiau neu ddarparu ystafell ymolchi ar y llawr isaf;
- gwella neu ddarparu system wresogi addas;
- addasu rheolyddion gwres neu olau i'w gwneud yn haws eu defnyddio;
- gwella mynediad i'r cartref a'i gwneud yn haws symud o'i gwmpas er mwyn i rywun ofalu am rywun arall sy'n byw yn yr eiddo, er enghraifft, plentyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau** ar gyfer awdurdodau lleol sy'n amlinellu'r dibenion y gellir darparu grantiau cyfleusterau i bobl anabl ar eu cyfer.

Grantiau dewisol a benthyciadau

Mae gan awdurdodau lleol hefyd bwerau dewisol i ddarparu cyllid ar gyfer addasu, trwsio a gwneud gwelliannau i dai o dan **Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002**. Gallai'r cymorth hwn fod ar ffurf grant, ond yn aml bydd yn fenthyciad. Bydd gan bob Awdurdod Lleol ei bolisiau ei hun o ran y math o gymorth y bydd yn ei gynnig a'r amodau y bydd yn rhaid i'r person eu bodloni i fod yn gymwys i gael cymorth.

Ardaloedd Adnewyddu Tai

Mae cynlluniau adnewyddu sy'n seiliedig ar ardaloedd ac yn canolbwyntio ar dai yn y sector preifat i'w cael mewn rhai awdurdodau lleol. Gall fod y bydd unrhyw un sy'n byw yn un o'r ardaloedd adnewyddu hyn yn gymwys i gael cyllid ychwanegol ar gyfer gwella'i eiddo. Gellir cael rhagor o wybodaeth oddi wrth yr awdurdod lleol perthnasol.

Gofal a Thrwsio Cymru

Gofal a Thrwsio Cymru yw'r corff cenedlaethol sydd wrthi'n gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn gartrefi sy'n ddiogel ac yn addas ar gyfer eu hanghenion. Gall Gofal a Thrwsio Cymru asesu anghenion pobl hŷn drwy gyfrwng Asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol sy'n cwmpasu Cymru gyfan.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru, ac mae'r rheini yn eu tro yn darparu cyngor i bobl hŷn ac yn eu helpu i ddod o hyd i ffynonellau cyllido ar gyfer addasu eu cartrefi a'u cynnal a'u cadw.

Rhaglen Addasu Ymateb Cyflym

Mae Gofal a Thrwsio Cymru hefyd yn darparu rhaglen Addasu Ymateb Cyflym. Os bydd person yn gorfforol anabl neu'n 60 oed neu'n hŷn, mae'n bosibl y gall hawlio gwerth hyd at £350 o waith addasu ar raddfa fach fel y gall gael ei ryddhau o'r ysbty a dychwelyd i fyw'n ddiogel yn ei gartref. Gellir hawlio'r pethau dilynol o dan y rhaglen hon: rampiau bach, rheiliau a chanllawiau, man dan do at doiled, gwastau llwybrau, larymau diogelwch cymunedol a dulliau diogelwch cartrefi.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a manylion am Asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol o swyddfa genedlaethol Gofal a Thrwsio:

I gael rhagor o wybodaeth:

Ffôn: 0300 111 3333

E-bost: enquiries@careandrepair.org.uk

Gwefan: www.cymru.careandrepair.org.uk/

Cymorth Ariannol

Moneyline Cymru

Sefydliad ariannol dielw ar gyfer datblygu cymunedol yw Moneyline Cymru sy'n helpu i ddarparu benthyciadau, cyngor am gynilo a chyngor ariannol i'r cyhoedd. Cafodd ei sefydlu gyda chefnogaeth Cymdeithasau Tai Cymru. Mae Moneyline Cymru yn ail-fuddsoddi ei elw i gyd yn y cwmni i'w alluogi i helpu mwy o bobl.

Ar hyn o bryd, mae gan Moneyline Cymru ganghennau ar draws **de a gorllewin Cymru**.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: www.moneylinecymru.co.uk

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn gweithio mewn partneriaeth â Turn2Us, Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth i gynig gwasanaeth cenedlaethol sy'n cynnig cyngor diduedd am ddim i helpu unigolion i reoli eu arian yn fwy effeithlon ac i ymdrin â phroblemau dyled.

I gael rhagor o wybodaeth:

Ffôn: 0300 500 5000

E-bost: enquiries@moneyadvice.service.org.uk

Gwefan: www.moneyadvice.service.org.uk

Undebau Credyd

Sefydliadau ariannol cydfuddiannol yw Undebau Credyd sy'n eiddo i'w haelodau ac yn cael eu rhedeg gan eu haelodau ac ar gyfer eu haelodau. Caiff Undebau Credyd eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA), a chaiff arian sy'n cael ei gynilo ei ddiogelu gan y Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol ar yr un sail â phe bai'n cael ei gadw mewn banc neu gymdeithas adeiladu.

Mae gan aelodau o Undeb Credyd un peth yn gyffredin iddynt, fel byw yn yr un ardal neu weithio yn yr un man, neu maent yn aelodau o gymdeithas tai neu gorff tebyg. A bydd yr holl aelodau'n cynilo mewn cronfa sy'n gyffredin iddynt. Wedyn, gellir defnyddio'r gronfa hon i roi benthyciadau llog isel i aelodau'r undeb credyd. Caiff yr holl log o ad-dalu benthyciadau ei ail-fuddsoddi yn yr undeb credyd, ac ni fydd dim yn gadael y gymuned.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â llinell gymorth yr undebau credyd drwy ffonio 0808 129 4050 neu defnyddiwch wefan [findyourcredit union](http://findyourcreditunion.com).

Effeithlonrwydd Ynni

Nyth

Mae Nwy Prydain yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i weithredu'r cynllun newydd.

Mae Nyth yn cynnig cyngor i unrhyw un yng Nghymru, yn ogystal ag asesiad tŷ cyfan a gwelliannau tai yn rhad ac am ddim ar gyfer y tai mwyaf effeithlon o ran defnyddio ynni.

Rhestrir isod rai o'r gwelliannau y gall Nyth eu darparu:

- Inswleiddio atig a waliau ceudod;
- Inswleiddio waliau solet;
- Atal drafft;
- Gosod boeler newydd

Rhaid i ddeiliaid tai fodloni'r meini prawf dilynol i fod yn gymwys i gael cymorth o dan yr asesiad tŷ cyfan:

- Rhaid iddynt fod yn cael budd-dal sy'n destun prawf modd;
- Rhaid i'w heiddo fod â graddfa effeithlonrwydd ynni o F neu G ar hyn o bryd;
- Rhaid i'w heiddo fod mewn perchnogaeth breifat neu gael ei rentu'n breifat.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn i'w chael yn www.nestwales.org.uk neu drwy ffonio rhif Rhadffôn Nyth ar **0808 808 2244**.

Y Fargen Werdd

Gall deiliaid tŷ wneud rhai gwelliannau i'w tai heb orfod talu'r holl gostau ymlaen llaw drwy'r Fargen Werdd. Byddant yn talu am unrhyw welliannau drwy eu bil trydan.

Mae'r gwelliannau i arbed ynni'n cynnwys:

- inswleiddio – e.e. inswleiddio waliau ceudod neu inswleiddio'r atig
- gwresogi
- atal drafft
- gwydrau dwbl
- technolegau ynni adnewyddadwy e.e paneli solar neu dyrbinau gwynt

Mae rhagor o wybodaeth yn www.gov.uk/cymraeg.

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Sefydliad annibynnol yw'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sy'n helpu pobl i arbed ynni a lleihau allyriadau carbon. Caiff yr Ymddiriedolaeth ei chyllido gan Lywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig a'r sector preifat, ac mae'n gweithredu'n rhanbarthol yn Lloegr gyda thimau annibynnol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal ei hamcanion o arbed ynni a lleihau allyriadau carbon drwy:

- Ddarparu gwybodaeth arbenigol ar arbed ynni.
- Cefnogi pobl i weithredu.
- Helpu awdurdodau lleol a chymunedau i arbed ynni.
- A thrwy ddarparu sicrwydd ansawdd ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a gosodwyr.

Nod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yw sicrhau bod pob gosodwr a restrir yn aelod o'r Gymdeithas Inswleiddio Genedlaethol (NIA).

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi lansio gwasanaeth cynghori yn ddiweddar, wedi ei ariannu gan y Llywodraeth, o'r enw'r **Gwasanaeth Cynghori Arbed Ynni**. Mae hwnnw'n wasanaeth rhad ac am ddim a fydd yn cyfeirio defnyddwyr i ystod o sefydliadau a all helpu i wneud gwelliannau yn eu tai a lleihau eu biliau tanwydd.

I gael rhagor o wybodaeth:

Ffôn: 0300 123 1234

Gwefan: www.energysavingtrust.org.uk

Cynllun Tariff Bwydo i'r Grid (FIT)

O dan y cynllun FIT, rhaid i gyflenwyr ynni wneud taliadau rheolaidd i ddeiliaid tai sy'n cynhyrchu eu trydan eu hunain o ffynonellau adnewyddadwy neu ffynonellau carbon isel.

Mae'r cyflenwyr ynni yn gwarantu talu lleiafswm ar gyfer yr holl drydan a gynhyrchir yn ogystal â thaliad ychwanegol am unrhyw drydan a gaiff ei allforio i'r grid. Caiff y cynllun ei weinyddu gan y Cyflenwyr Trydan Trwyddedig ac Ofgem, a darperir gwybodaeth am y cynllun i'r cyhoedd gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Ymddiriedolaeth Carbon ar ran Llywodraeth y DU.

Gellir dod o hyd i restr o gyflenwyr trwyddedig y tariff cyflenwi trydan ar wefan [ofgem](http://ofgem.gov.uk).

Cynllun Paneli Solar Ffotofoltig (PV) am Ddim

Mae'r cynllun hwn yn adnabyddus hefyd fel y cynllun rhentu fy ngofod to ac mae'n ymwneud â chwmnïau yn cynnig paneli solar PV am ddim i gwsmeriaid, yn cynnwys cost gosod ac unrhyw gostau cynnal a chadw yn y dyfodol. Am hynny, bydd y cwmni yn cael y tariff allforio ac unrhyw incwm a gaiff ei gynhyrchu o'r paneli solar. Gall y cwsmer gael yr ynni a gynhyrchir am ddim neu am bris gostyngedig.

Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy

Nod y Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yw darparu cymorth ariannol a chymhelliant i unigolion, cymunedau a busnesau, i newid o systemau gwresogi a gaiff eu hynni o danwydd ffosil, i systemau ynni adnewyddadwy.

Nod y cynllun Taliad Premiwm Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy yw cefnogi unigolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sy'n dymuno gosod system wres adnewyddadwy yn eu prif gartref. Bydd modd i unigolion wneud cais am daleb ac unwaith y bydd y system wedi'i gosod, gellir cyfnewid y daleb am grant.

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cynhyrchu canllawiau ar y Cynllun Taliad Premiwm Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy.

■ FAQs for RHPP

Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn i'w chael ar wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni neu drwy ddilyn y linciau a ganlyn:

- **Feed In Tariff (FIT) Scheme**
- **Feed in Tariff - FAQs**
- **Free PV Solar Panel Scheme**
- **The Renewable Heat Incentive (RHI)**

NEA Cymru

NEA Cymru yw cangen Cymru o'r NEA (National Energy Action), sef prif elusen tlodi tanwydd y DU.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael ar wefan NEA Cymru: www.nea.org.uk/welcome-cym/

Cronfeydd Llesiannol ac Elusennau

Gwasanaeth elusennol yw Turn2Us sy'n helpu pobl i ddod o hyd i ffynonellau cymorth ariannol ar sail eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol hwy ac i ddarparu mynediad i'r ffynonellau hynny. Mae gan Turn2us gronfa ddata gyllido a all helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth am fudd-daliadau lles, grantiau, cronfeydd llesiannol a chymorth arall.

Mae'n bosibl y gall rhai cronfeydd llesiannol ac elusennau gynnig cefnogaeth a chymorth ariannol i bobl oedrannus a / neu anabl gyda gwelliannau ac addasiadau hanfodol yn y cartref, i'w galluogi i barhau i fyw gartref ac osgoi mynd i fyw mewn gofal.

I gael rhestr o'r cronfeydd llesiannol sydd ar gael i bobl oedrannus ac anabl yng Nghymru, dylid defnyddio'r termau chwilio dilynol (**Sylwch:** enghraifft yn unig yw hon a gellir defnyddio amrywiaeth o dermau chwilio):

- Yn '*Personal background*', sgroliwch i lawr i 'Health' a dewiswch 'People who are disabled or elderly' o'r ddewislen.
- Yn '*Location*' dewiswch 'Wales'.
- Yn '*Help required*' dewiswch 'Household Essentials'.
- Yn '*Keyword*' teipiwch 'Benevolent'.

Mae'r gronfa ddata gyllido hon i'w gweld ar wefan **Turn2us**

Sefydliadau Defnyddiol

Gellir dod o hyd isod i rai cronfeydd llesiannol gan y lluoedd arfog a chronfeydd llesiannol gwasanaeth cyhoeddus sy'n cynnig cefnogaeth a chymorth ariannol ar gyfer gwella, trwsio ac addasu cartrefi:

- **Y Lleng Frenhinol Brydeinig**
- **Cronfa Lesiannol y Morluoedd Brenhinol**
- **Cronfa Lesiannol Gweddwon a Phlant Amddifad Cymdeithas Gwasanaethau Tân Prydain**